

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu
Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol)
(Rhif 3) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 3) 2021.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

17 Rhagfyr 2021

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 3) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn diwygio is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.
- 2.2 Mae diwygiadau pellach i is-ddeddfwriaeth arall yn debygol o gael eu gwneud o ganlyniad i Ddeddf 2018

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Rheoliadau 2021 yn cael eu gwneud o dan adrannau 97(1) a (2) a 98(2) o Ddeddf 2018. Mae adran 97 yn rhoi pŵer rheoleiddio i Weinidogion Cymru wneud mathau canlyniadol a mathau eraill o ddarpariaeth y maent o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i Ddeddf 2018. Caiff rheoliadau o'r fath ddiwygio unrhyw ddeddfiad. Yn unol ag adran 98(4) o Ddeddf 2018, mae Rheoliadau 2021 yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd.
- 3.2 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2018 yn sefydlu'r system statudol newydd ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc ("y system ADY"). Ar gyfer plant, mae'n disodli'r system y darperir ar ei gyfer ym Mhennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 ("y system AAA"). Bydd y system ADY yn cael ei gweithredu dros gyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi 2021, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y system AAA yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â rhai plant.
- 3.3 Roedd Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)), yn cychwyn y system ADY ar 1 Medi 2021 mewn perthynas â phlant penodol, ac mae gorchymynion cychwyn dilynol wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cychwyn y system ADY o 1 Ionawr 2022 ar gyfer rhai carfanau eraill o blant. O ganlyniad, o fis Ionawr ymlaen, bydd nifer cynyddol o blant sydd â CDU.
- 3.4 Roedd erthygl 8 o'r Gorchymyn hwnnw'n darparu i adran 58 o Ddeddf 2018 ddod i rym yn llawn ar 1 Medi 2021. Mae adran 58 yn diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996. O dan adran 347, roedd gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o gymeradwyo ysgolion annibynnol yng Nghymru fel rhai addas ar gyfer derbyn plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, neu mewn perthynas ag ysgol nad oedd wedi'i chymeradwyo felly, cydsynio i leoli plentyn unigol yno.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Diben Rheoliadau 2021 yw gwneud diwygiadau canlyniadol i 3 set o reoliadau: Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) 2002; Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007; a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009. Ystyrir bod y diwygiadau'n angenrheidiol neu'n hwylus i sicrhau bod darpariaeth briodol o fewn y setiau o Reoliadau sy'n cael eu diwygio yng ngoleuni'r ffaith bod y system ADY mewn grym yn rhannol a bod adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 wedi'i ddiddymu. Mae materion eraill, llai brys yn ymwneud â Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009 y bydd angen diwygiadau canlyniadol pellach maes o law.

Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) 2002

- 4.2 Mae Deddf yr Heddlu 1997 a'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd roi tystysgrif cofnod troseddol manylach. Mae'r diffiniad o wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn rheoliad 5B(9) yn berthnasol i'r mater hwnnw. Ymhlith pethau eraill, mae'r diffiniad yn cynnwys llety a ddarperir i oedolyn sydd, neu sydd wedi bod, yn ddisgybl sy'n mynychu un o fathau penodol o sefydliad preswyl. Mae'r rhain yn cynnwys yr isod:
- a. ysgol annibynnol yng Nghymru a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 347;
 - b. ysgol annibynnol sydd, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru o dan adran 347(5)(b), yn darparu lleoedd ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.
- 4.3 Mae rheoliad 2 o Reoliadau 2021 yn diwygio'r darpariaethau hyn i gyfeirio yn lle hynny at:
- a. ysgol annibynnol wedi'i threfnu'n arbennig i wneud darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
 - b. ysgol annibynnol a oedd, yn ystod unrhyw gyfnod cyn 1 Medi 2021 pan oedd yr oedolyn yn ei mynychu, naill ai wedi'i chymeradwyo o dan adran 347 neu, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru o dan yr adran honno, yn darparu lleoedd ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.
- 4.4 Mae'r ddarpariaeth yn is-baragraff (a) yn adlewyrchu'r ysgolion annibynnol yn Lloegr a gwmpesir yn y diffiniad. Mae'r ddarpariaeth yn is-baragraff (b) ar gyfer sicrhau bod rhai o'r sefyllfaoedd a fyddai wedi'u cwmpasu cyn 1 Medi 2021 yn parhau i gael eu cynnwys.

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol (Cymru) 2007

- 4.5 Mae'r rheoliadau uchod sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gasglu'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) angen diwygiad i sicrhau bod modd casglu gwybodaeth am ddisgyblion sydd â chynllun datblygu unigol (CDU) o dan y system ADY, (naill ai CDU a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol neu awdurdod lleol), ochr yn ochr â'r wybodaeth am ddisgyblion sydd â chynlluniau o dan y system AAA.
- 4.6 Bydd y diwygiadau arfaethedig yn diweddarau'r derminoleg i gynnwys "anghenion dysgu ychwanegol" a "Deddf 2018" yn Rheoliad 3, ac yn cynnwys cyfeiriad at CDU yn Atodlen 2. Mae'n ofynnol gwneud y newidiadau hyn nawr er mwyn sicrhau y gall y broses o gasglu data sy'n dechrau ar 18 Ionawr gynnwys casglu data ar CDU yn gyfreithlon.

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Darpariaeth Amgen) (Cymru) 2009

- 4.7 Mae'r rheoliadau hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol gasglu data ar blant mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Mae'r diwygiadau gofynnol yn adlewyrchu'r rhai a wnaed i Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 uchod. Er mwyn caniatáu ar gyfer casglu data ar ddisgyblion â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol neu a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol, mae'n ofynnol i ddiwygiadau gynnwys y derminoleg ADY newydd yn Rheoliad 2, a pharagraff newydd yn Atodlen 1 sy'n cynnwys CDU fel rhan o'r broses o gasglu data.
- 4.8 Mae'r gwaith o gasglu data ar gyfer EOTAS yn digwydd ar yr un pryd â CYBLD, felly dylid gwneud y diwygiadau ar yr un pryd.

4. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r rheoliadau'n eu gwneud.

5. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio canlyniadol hyn gan eu bod yn gwneud diwygiadau technegol i statud ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol nac i'r sector cyhoeddus.